Cyllid y Wlad

# Nodiadau ar GYFLOGAETH

## CYNNWYS


**Cwblhau eich Tudalennau Cyflogaeth** EN1

- ***Rheolau cyffredinol ar drethu incwm cyflogaeth*** EN2
- ***Rheol arbennig*** EN2
- ***Taliadau arian*** EN2

***Manylion y cyflogwr*** EN3

***Incwm o gyflogaeth*** EN3

- ***Arian*** EN3
- ***Buddiannau a threuliau*** EN3
- Asedion a drosglwyddwyd a thaliadau a wnaed ar eich rhan EN4
- Talebau, cardiau credyd a thocynnau EN4
- Llety EN4
- Lwfans milltiroedd EN4
- Buddiannau car a thanwydd car EN4
- Faniau EN4
- Benthyciadau di-log a llog isel EN5
- Yswiriant meddygol neu ddeintyddol preifat EN5
- Buddiannau eraill EN5
- Taliadau treuliau a dderbyniwyd a thaliadau mantoli EN6
- ***Cyfandaliadau a thaliadau iawndal neu fuddiannau gan gynnwys taliadau a buddiannau o'r fath gan gyn gyflogwr*** EN6
- ***Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DG yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000*** EN6
- ***Treuliau a dalwyd gennych wrth gyflawni eich swydd*** EN6
- Costau teithio a chynhaliaeth EN7
- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau EN8
- Ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau EN8
- Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf EN8
- Teithio rhwng y cartref a gweithle parhaol EN8
- ***Didyniad Enillion Tramor*** EN8
- ***Treth dramor na wnaed cais am ryddhad credyd treth amdani*** EN8


## TAFLENNI CYMORTH A THAFLENNI

Mae Taflenni Cymorth a thaflenni sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth ar gyfer cyflogaeth ar gael o'r Llinell Archebu.

- *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*
- *IR134: Income Tax and relocation packages*
- *IR136: Income Tax and company vans - a guide for employees and employers*
- *IR145: Low-interest loans provided by employers*
- *IR161: Rhyddhad treth ar gyfer teithiau busnes cyflogeion*
- *IR201: Vouchers, credit cards and tokens*
- *IR202: Living accommodation*
- *IR203: Car benefits and car fuel benefits*
- *IR204: Lump sums and compensation payments*
- *IR205S: Foreign Earnings Deductions for Seafarers*
- *IR206: Capital allowances (general)*
- *IR207: Non-taxable payments or benefits for employees*
- *IR208: Payslips and coding notices*
- *IR210: Assets provided for private use*
- *IR211: Employment - residence and domicile issues*
- *IR212: Tax equalisation*
- *IR213: Payments in kind*
- *Booklet 480: Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*

## Cwblhau eich Tudalennau Cyflogaeth

***Defnyddir y gair 'cyflogaeth' yn y Nodiadau hyn i gynnwys swyddi cyfarwyddwyr, swyddi, a phenodiadau asiantaeth yn ogystal â threfniadau gweithwyr syml. Mae 'P11D' yn golygu P11D, P9D neu wybodaeth gyfatebol.***

Cofiwch, er bod eich cyflogwr wedi rhoi ffigurau i chi, **chi sy'n gyfrifol** am yr hyn a rowch ar y Tudalennau Cyflogaeth.

Casglwch y deunydd sydd ei angen arnoch, fel:

- eich tystysgrif o gyflog a threth (P60) ac unrhyw dystysgrif gadael (P45(rhan 1A) gan eich cyflogwr sy'n dangos manylion cyflog a threth
- eich Hysbysiadau o Godau (P2) ar gyfer 1999-2000 a 2000-2001
- P11D gan eich cyflogwr yn rhoi manylion unrhyw fuddiannau a threuliau a dderbynioch
- manylion unrhyw dreuliau busnes a dalwyd gennych.

### *Os mai un gyflogaeth oedd gennych yn ystod y flwyddyn*

Bydd eich P60 yn dangos cyfanswm y cyflog a threth. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi P60 i chi erbyn 31 Mai 2000.

### *Os cawsoch fwy nag un gyflogaeth yn ystod y flwyddyn*

Ar yr amod eich bod yn gyflogedig ar 5 Ebrill 2000, bydd eich cyflogwr yn rhoi P60 i chi erbyn 31 Mai 2000. Bydd eich P60 yn dangos cyfanswm y cyflog a'r dreth yn y gyflogaeth honno a gall ddangos cyfanswm y cyflog a'r dreth mewn blwyddyn.

Os ydych wedi newid cyflogaeth yn ystod y flwyddyn ac nid yw'r manylion cyflog a threth ar eich P60 o'ch cyflogaeth flaenorol, neu os oedd mwy nag un gyflogaeth flaenorol, bydd angen i chi gael manylion cyfanswm y cyflog a'r dreth ar gyfer pob cyflogaeth. Gallwch gael y rhain o'ch slipiau cyflog blaenorol (neu o Ran 1A o'r P45 a roddwyd i chi wrth adael pob swydd).

Os nad oes gennych P60 bydd angen i chi gael yr holl fanylion o'ch slipiau cyflog neu P45.

Cwblhewch gopi ar wahân o'r Tudalennau Cyflogaeth ar gyfer pob cyflogaeth rydych wedi derbyn unrhyw incwm ohoni. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopïau ychwanegol, neu gallwch ddefnyddio llungopïau. Rhowch eich enw a'ch cyfeirnod treth ar unrhyw lungopïau.

## Rheolau cyffredinol ar drethu incwm cyflogaeth

Mae'r ffordd y dylai eich incwm gael ei ddatgan yn dibynnu ar p'un a oeddech yn gyfarwyddwr ai peidio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000.

### *Os nad oeddech yn gyfarwyddwr*

**Dylech gynnwys yr holl incwm a dderbyniwyd (neu a gafodd ei drin fel incwm a dderbyniwyd) yn ystod y flwyddyn.**

Mae'n rhaid i'r symiau a nodwch ym mlychau 1.8 i 1.10 gynnwys **yr holl** incwm a dderbynioch yn y flwyddyn dreth 1999-2000 fel gweithiwr hyd yn oed os oeddech wedi ei ennill mewn blwyddyn dreth gynharach, neu os cawsoch eich talu am waith nad yw wedi ei wneud eto.

Cewch eich trin fel petaech wedi derbyn yr incwm hwn ar y cynharaf:

- o'r dyddiad pan wnaed y taliad, neu'r taliad ar gyfrif, **neu**
- o'r dyddiad y cawsoch yr hawl i gael eich talu.

Mae hyn yn wir hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu os na dderbynioch unrhyw daliad mewn gwirionedd am eich bod wedi trefnu i'r swm oedd yn ddyledus i chi gael ei gymhwyso mewn rhyw ffordd arall.

### *Os oeddech yn gyfarwyddwr*

**Dylech gynnwys yr holl incwm a dderbyniwyd (neu a gafodd ei drin fel incwm a dderbyniwyd) yn ystod y flwyddyn.**

Mae'n rhaid i'r symiau a nodwch ym mlychau 1.8 i 1.10 gynnwys **yr holl incwm a dderbynioch** ym 1999-2000 gan gwmni roeddech yn gyfarwyddwr arno (cofiwch gynnwys y symiau a dderbynioch fel gweithiwr), hyd yn oed os oeddech wedi eu hennill mewn blwyddyn dreth gynharach, neu os ydych wedi cael eich talu am waith nad yw wedi cael ei wneud eto. Dylech hefyd gynnwys unrhyw symiau a oedd yn ddyledus i chi ond sydd wedi cael eu cymhwyso, drwy drefniant, mewn rhyw ffordd arall.

**Dylech drin incwm fel incwm a dderbyniwyd ar y cynharaf:**

- o'r dyddiad pan wnaed y taliad neu pan wnaed y taliad ar gyfrif, **neu**
- o'r dyddiad y daeth hawl gennych i gael eich talu hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, **neu**
- o'r dyddiad y daeth hawl gennych i gael taliad ar gyfrif, **neu**
- o'r dyddiad y cafodd symiau eu credydu i chi yng nghyfrifon neu gofnodion y cwmni, hyd yn oed os nad oeddech yn gallu codi arian ar y pryd, **neu**
- o'r dyddiad y penderfynwyd ar eich enillion ar gyfer cyfnod penodol, oni bai bod yr enillion ar gyfer cyfnod penodol o waith wedi cael eu penderfynu cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Yn yr achos hwn cewch eich trin fel petaech wedi derbyn yr enillion ar ddiwrnod olaf y cyfnod y mae'r enillion yn cyfeirio ato.

## ■ Rheol arbennig

Darllenwch y nodyn ar gyfer blwch 1.31 ar dudalen EN6 os:

- nad oeddech yn preswylio neu'n preswylio fel arfer yn y DG yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 1999 neu mewn blwyddyn gynharach, ac os derbynioch daliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000 ar gyfer cyflogaeth a ddaeth i ben yn y flwyddyn gynharach honno, **neu**
- na fyddwch yn preswylio neu'n preswylio fel arfer yn y DG yn y flwyddyn sy'n cychwyn 6 Ebrill 2000 ac os ydych wedi derbyn taliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000 ar gyfer cyflogaeth a fydd yn dechrau mewn blwyddyn ddiweddarach.

Gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Di-breswyl ac am *Daflen Gymorth IR211: Employment - residence and domicile issues.* Bydd y rhain yn dweud wrthych pa ffigwr, os o gwbl, i'w roi ym mlwch 1.31 a sut i ymdrin â'r taliadau a dderbynioch.

## Taliadau arian

Mae'n rhaid i chi nodi ym mlychau 1.8 i 1.10 y swm **cyn** didynnu unrhyw dreuliau rydych am wneud cais amdanynt.

**Dylech gynnwys:**

- cyflogau, ffioedd, comisiynau, arian goramser, bonws, a thaliadau cytundebol eraill ar gyfer gwasanaethau
- taliadau gan drydydd parti lle y gwneir y taliad fel gwobr am wasanaethau a roddir yn y gyflogaeth. Mae enghreifftiau yn cynnwys pob cildwrn a dderbyniwyd
- taliadau gwirfoddol a rhoddion a wnaed gan eich cyflogwr neu gan drydydd parti, pan ddaw'r taliad i chi drwy rinwedd eich cyflogaeth. Peidiwch â chynnwys rhoddion a roddwyd i nodi rhyw ddigwyddiad personol fel rhodd a roddir ar briodas
- taliadau a wnaed gan eich cyflogwr neu drydydd parti fel cymhelldal ('taliadau croeso') i ymgymryd â chyflogaeth
- taliadau nad ydynt yn uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau a gyflawnwyd ond sydd â chysylltiad uniongyrchol â'ch cyflogaeth. Er enghraifft, taliad a wnaed yn unswydd i gydnabod newidiadau yn eich amodau gwasanaeth neu gyflogaeth
- taliadau a wnaed mewn cyfandaliad, yn hytrach na mewn symiau wythnosol neu fisol, ac a delir naill ai yn lle incwm hawl i gyflogaeth, neu a delir fel anogaeth i barhau mewn cyflogaeth
- swm gros unrhyw wobr anogaeth a dderbyniwyd ac a ddangosir ar ffurflen P443 (dylech gynnwys unrhyw dreth y cyfrifwyd amdani ym mlwch 1.11)
- tâl salwch
- tâl salwch statudol a thâl mamolaeth statudol, a dalwyd gan eich cyflogwr
- taliad ar gyfer dyletswyddau a gyflawnwyd tra'n gweithio i asiantaeth
- taliadau o symiau gan ymddiriedolwyr cynllun rhannu elw a gymeradwywyd
- incwm o gynlluniau cydnabyddiaeth a ohiriwyd
- taliadau a gewch am gytuno i gyfyngu ar eich gweithgareddau, er enghraifft, drwy gytuno i beidio â chystadlu gyda busnes eich cyn gyflogwr
- benthyciad sy'n cael ei ddileu neu ei ganslo gan eich cyflogwr yn ystod y flwyddyn os digwyddodd y dileu neu'r canslo am eich bod wedi bodloni neu wedi cwblhau rhyw amod o ran cyflogaeth. Er enghraifft, benthyciad a gafodd ei ddileu am eich bod wedi cwblhau cyfnod cytûn o wasanaeth gyda'ch cyflogwr.

**Peidiwch â chynnwys:**

- buddiannau a thaliadau treuliau a dderbyniwyd - mae'r rhain yn mynd ym mlychau 1.12 i 1.23
- cyfandaliadau a dalwyd mewn cysylltiad â therfynu cyflogaeth, ymddeoliad neu farwolaeth - nodwch y rhain ym mlychau 1.27 i 1.29
- tâl salwch statudol a thâl mamolaeth statudol a dalwyd gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol - mae'r rhain yn mynd ym mlwch 11.7 ar dudalen 4 o'ch Ffurflen Dreth
- cyfranddaliadau neu fuddiannau mewn cyfranddaliadau a dderbyniwch am ddim neu'n rhad, oni bai bod TWE wedi cael ei weithredu - mae'r rhain yn mynd yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau
- symiau a dderbyniwyd am drosglwyddo, canslo, rhyddhau, neu mewn cysylltiad â pheidio ag ymarfer, opsiynau cyfranddaliadau oni bai bod TWE wedi'i weithredu - mae'r rhain yn mynd yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau.

**Cofiwch** nid oes angen i ni wybod dim am:

- roddion a wneir i gynllun rhoi trwy'r gyflogres
- rhyddhad cyflog sy'n gysylltiedig ag elw a gyfrifir gan eich cyflogwr yn y DG wrth weithio allan eich cyflog at ddibenion treth
- cyfraniadau a delir i gynllun pensiwn eich cyflogwr.

Peidiwch â rhoi'r rhain unrhyw le yn eich Ffurflen Dreth.

## *Manylion y cyflogwr*

**blwch 1.1 a blwch 1.2** Nodwch enw a chyfeirnod TWE eich cyflogwr (a ddangosir ar eich P60 neu Ran 1A o bob P45).

**blwch 1.3** Rhowch y dyddiad y dechreuodd eich cyflogaeth, os oedd hyn ar ôl 5 Ebrill 1999.

**blwch 1.4** Rhowch y dyddiad y daeth eich cyflogaeth i ben, os oedd hyn rhwng 6 Ebrill 1999 a 5 Ebrill 2000 (fe gewch hyn o Ran 1A o bob P45).

**blwch 1.5** Rhowch gyfeiriad eich cyflogwr.

**blwch 1.6** Ticiwch y blwch hwn os oedd y gyflogaeth hon fel cyfarwyddwr.

**blwch 1.7** Ticiwch y blwch hwn os oedd y gyflogaeth hon fel cyfarwyddwr cwmni caeëdig. Yn fras, cwmni caeëdig yw cwmni a reolir gan:

- bump neu lai o gyfranogwyr, **neu**
- unrhyw nifer o gyfranogwyr sy'n gyfarwyddwyr.

'Cyfranogwyr' yw pobl sydd â chyfran neu fudd yn incwm neu gyfalaf y cwmni, fel y cyfranddalwyr a rhai credydwyr benthyciadau.

Os oes unrhyw amheuaeth gennych a ydych yn gyfarwyddwr cwmni caeëdig, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth am arweiniad.

## *Incwm o gyflogaeth*

### *Arian*

Mae'n rhaid i chi nodi yn y blychau priodol, eich cyflog, unrhyw gildwrn ac unrhyw arian arall a dderbynioch o'ch cyflogaeth. Esbonnir rhai o'r eitemau mwy cyffredin yn yr adran 'Taliadau arian' ar dudalen EN2. Os derbynioch daliad mewn cysylltiad â'ch cyflogaeth ac os nad ydych yn siwr a ddylech ei gynnwys, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth am arweiniad.

Cofiwch, os oeddech wedi newid swydd neu os cawsoch fwy nag un gyflogaeth ar yr un adeg, yna mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalennau Cyflogaeth ar wahân ar gyfer pob un.

**blwch 1.8** Nodwch ym mlwch 1.8 eich **cyflog net ar ôl blwydd-dâl** a nodwyd ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45 (Rhan 1A)) gan eich cyflogwr. Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at rai ohonynt neu at bob un yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Os oes unrhyw ansicrwydd gennych ynglŷn ag unrhyw ffigurau cyflogau, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR208: Payslips and coding notices.*

Bydd eich P60 yn dangos ffigurau ar gyfer cyflog a threth o'r gyflogaeth a ddaliwyd gennych ar 5 Ebrill 2000. Os oedd gennych fwy nag un swydd neu os oeddech yn ddi-waith yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2000 gallai'r ffurflen hefyd gynnwys ail set o fanylion cyflog a threth ar gyfer cyflogaethau blaenorol ac unrhyw Fudd-dâl Diweithdra, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith a dderbynioch.

Caiff y manylion ar gyfer cyflogaethau blaenorol, ac unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith a dderbyniwyd, eu hadio at ei gilydd yn y ffigurau ar eich P60. Felly efallai y bydd angen i chi gyfeirio at gofnodion eraill (fel slipiau cyflog, P45 (Rhan 1A) neu ddatganiadau o fudd-daliadau trethadwy y Wladwriaeth) er mwyn gweithio allan:

- y ffigurau ar gyfer cyflog o'r cyflogaethau cynharach i fynd yn y Tudalennau Cyflogaeth ar wahân a gwblhewch (un set ar gyfer pob cyflogaeth), **a**
- y ffigurau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith sy'n mynd ym mlwch 11.5 yn eich Ffurflen Dreth. Gwnewch yn siwr nad ydych yn cynnwys ffigurau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith yn eich Tudalennau Cyflogaeth.

Os derbynioch gyfandaliad y mae'n rhaid i chi ei roi ym mlychau 1.24 i 1.29 (er enghraifft, taliad colli gwaith) a chafodd y taliad ei drethu gan eich cyn gyflogwr a'i gynnwys yn eich P.45, gwnewch yn siwr eich bod yn ei ddidynnu o'r ffigwr ym mlwch 1.8.

**blwch 1.9** Nodwch ym mlwch 1.9 unrhyw gildwrn y gallech fod wedi ei dderbyn na chafodd ei gynnwys ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45 (Rhan 1A)).

**blwch 1.10** Nodwch ym mlwch 1.10 unrhyw daliadau ariannol eraill na chafodd eu cynnwys ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45 (Rhan 1A)).

**blwch 1.11** Nodwch ym mlwch 1.11 swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r symiau ym mlychau 1.8 i 1.10 a gynhwyswyd ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45(Rhan 1A). Os ydych yn ansicr ynglŷn â ffigurau treth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR208: Payslips and coding notices*. Peidiwch â chynnwys unrhyw dreth dramor a dalwyd yn y blwch hwn. Os didynnwyd neu os talwyd treth mewn gwlad arall, darllenwch y nodyn ar gyfer blwch 1.38 'Treth dramor'. Bydd eich P45 (Rhan 1A) neu P60 yn dangos treth a ad-dalwyd ar gyfer y gyflogaeth hon, dangoswch y swm mewn cromfachau.

Os daeth cyflogaeth i ben ac o ganlyniad derbynioch ad-daliad treth gan y Swyddfa Cyllid y Wlad neu Asiantaeth Budd-daliadau'r DSS, nodwch ym mlwch 1.11 y ffigwr treth a ddidynnwyd a ddangosir ar y P45 (Rhan 1A) a drosglwyddwyd i chi pan adawsoch y gyflogaeth honno. Dylai'r ad-daliad a dderbyniwyd gael ei nodi ym mlwch 17.1 ar dudalen 7 o'ch Ffurflen Dreth. Defnyddiwch ffigwr y P60 neu'r P45 ar gyfer y blwch hwn hyd yn oed os ydych wedi gwneud addasiad ym mlwch 1.8 am fod angen i chi gwblhau blychau 1.23 i 1.29.

### *Buddiannau a threuliau*

#### *Rheolau cyffredinol ar flychau 1.12 i 1.23*

**Mae blychau 1.12 i 1.15 yn gymwys i bawb.**
Dylech eu cwblhau fel y bo'n briodol. Gweler y nodiadau ar dudalen EN4.
**Mae blychau 1.16 i 1.23 ond yn gymwys i chi:**

- os oeddech yn gyfarwyddwr, **neu**
- os oedd eich enillion o'ch cyflogaeth ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu fwy (gan gynnwys buddiannau a threuliau).

Os yw blychau 1.16 i 1.23 yn gymwys i chi, nodwch swm trethadwy unrhyw fudd neu draul yn yn blwch priodol. Gelwir swm trethadwy budd yn 'gyfwerth arian'. Bydd hwn ar y P11D, y dylai'ch cyflogwr fod wedi ei roi i chi (gweler isod).

Cofiwch, gall y buddiannau a gewch gynnwys:

- benthyciadau di-log neu log isel a ddarperir i aelodau'r teulu, **ac**
- unrhyw fuddiannau eraill, a ddarperir i aelodau eich teulu neu'ch cartref.

Dim ond y symiau nad ydych wedi'u cynnwys rywle arall y dylech eu nodi ym mlychau 1.16 i 1.23.

Mae gan rai o'r termau a ddefnyddir uchod ystyr arbennig at ddibenion treth. Er enghraifft, 'ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu fwy', 'aelodau'r teulu', 'aelodau o'ch teulu neu'ch cartref', a 'chyfarwyddwr'. Mae gwybodaeth fanylach am y termau hyn ar gael yn llyfryn 480, *Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth* sydd ar gael o'r Llinell Archebu. Mae'r Nodiadau hyn yn cynnwys help arall ar fuddiannau a threuliau.

#### *Ffurflen P11D*

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr anfon y manylion canlynol at Gyllid y Wlad:

- pob budd trethadwy a ddarperir i chi oherwydd eich cyflogaeth, **a**
- threuliau trethadwy a dalwyd i chi.

Darperir y manylion ar y P11D. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi copi o'r ffurflen hon i chi (neu'r wybodaeth sydd ynddi) erbyn 6 Gorffennaf 2000. Cofiwch hefyd, er bod eich cyflogwr wedi rhoi'r ffigurau hyn i chi, chi sy'n gyfrifol am yr hyn a nodwch ar eich Tudalennau Cyflogaeth.

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau y mae gan eich cyflogwr **oddefeb** amdanynt neu unrhyw eitemau y mae eich cyflogwr yn gwneud **cytundeb setliad TWE** ar eu cyfer. Nid oes angen i chi ddweud wrth Gyllid y Wlad am yr eitemau hyn.

Mae **goddefeb** yn drefniant y gallai eich cyflogwr fod wedi ei wneud gyda'r Swyddfa Cyllid y Wlad. Mae'n eich arbed chi rhag cynnwys taliad budd neu dreuliau a dderbyniwyd oddi wrth eich cyflogwr fel incwm ac yna yn eich arbed rhag gorfod gwneud cais cyfatebol ar gyfer y treuliau caniatáol a dalwyd gennych.

Mae **cytundeb setliad TWE** yn drefniant lle y gall eich cyflogwr setlo eich rhwymedigaeth Treth Incwm ar fân fuddiannau mewn da ac mewn taliadau treuliau.

Os oes unrhyw amheuaeth gennych a yw unrhyw ollyngiad neu setliad TWE yn gymwys i chi, efallai y gallai eich cyflogwr helpu.

Efallai y gwelwch hefyd nad yw'r manylion a gewch gan eich cyflogwr yn cynnwys rhai eitemau y credwch y byddai angen eu datgan fel buddiannau. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod yr eitemau yn rhydd o dreth naill ai yn ôl y gyfraith, neu drwy rinwedd consesiwn statudol ychwanegol. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn ag unrhyw eitemau gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR207: Non-taxable payments or benefits for employees.*

- Asedion a drosglwyddwyd a thaliadau a wnaed ar eich rhan

**blwch 1.12** Mae'r taliadau a'r taladau mewn da y dylech eu nodi ym Mlwch 1.12 yn disgyn i ddau gategori yn fras.

***Asedion a drosglwyddwyd gan gyflogwr***

Os bydd cyflogwr yn rhoi rhywbeth i chi y gellir ei drosglwyddo'n arian, dylech gynnwys y swm y gellir ei werthu amdano, hynny yw, ei werth yn ail law. Dylai'r gwerth hwn gael ei ddefnyddio p'un a ydych yn gwerthu'r eitem a dderbynioch mewn gwirionedd ai peidio. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys set deledu, dodrefn neu ddillad a roddir i chi gan eich cyflogwr.

Os oeddech yn gyfarwyddwr neu os oedd eich enillion o'ch cyflogaeth ar gyfradd o £8,500 neu fwy y flwyddyn (yn cynnwys buddiannau a threuliau) gallai'r gwerth i'w ddefnyddio fel taliad mewn da fod yn fwy na'i werth ail law. Enghraifft o hyn fyddai eich cyflogwr a'i werth ail law, minws yn y naill achos neu'r llall y swm (os o gwbl) a dalwyd gennych amdani. Rhowch y ffigwr (uwch) hwn ym mlwch 1.12. Am fwy o wybodaeth ar achosion eithriadol eraill lle y gall y ffigwr P11D fod yn uwch na'r gwerth ail law gweler *Taflen Gymorth IR213: Payments in kind*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Mae unrhyw beth (heblaw car, yr ymdriniwyd ag ef ym mlychau 1.16 a 1.17) y gallwch roi'r gorau iddo ar unwaith neu ar fyr rybudd yn gyfnewid am gyflog arian uwch hefyd yn daliad mewn da (er enghraifft, bwyd a llety), a dylech nodi'r cyfwerth arian ym mlwch 1.12 fel taliad mewn da. Os bydd yn bosibl rhoi'r gorau i lety, Taflen Gymorth IR202: Living accommodation yn esbonio sut i gyfrifo'r ffigwr i'w nodi ym mlwch 1.12.

***Taliad a wnaed ar eich rhan gan y cyflogwr***

Gallai eich cyflogwr dalu taliad y dylech ei dalu ar eich rhan. Dylai hwn gael ei ddangos ar eich P11D. Er enghraifft gallai eich cyflogwr dalu:

- eich bil ffôn personol yn uniongyrchol i'r cwmni ffôn
- eich rhent yn uniongyrchol i'ch landlord
- eich bil cerdyn credyd personol yn uniongyrchol i'r cwmni cardiau credyd
- eich treth.

Os talwyd unrhyw daliadau y dylech eu talu ar eich rhan, nodwch y swm ym mlwch 1.12.

***Treth TWE a dalwyd gan gyflogwr, na chaiff ei dwyn mewn gwirionedd gennych chi***

Os ydych yn derbyn tâl ar ffurf nad yw'n arian parod, neu gan gyfryngwr, gallai eich cyflogwr dalu treth o dan TWE ar eich rhan. Os bydd y dreth o dan TWE yn fwy nag unrhyw daliad ariannol sy'n ddyledus i chi am y cyfnod talu hwnnw, ni all eich cyflogwyr ddidynnu'r holl dreth sy'n ddyledus ar yr eitemau anariannol o'ch cyflog. Os bydd hyn yn digwydd, ac os nad ydych yn rhoi cyfrif am y dreth TWE i'ch cyflogwr o fewn 30 diwrnod o dderbyn y cyflog, dylech gynnwys swm y dreth a dalwyd gan eich cyflogwr ym mlwch 1.12. Mae'r ffigwr ar gael yn y P11D.

- Talebau, cardiau credyd a thocynnau

**blwch 1.13** Mae eich incwm o gyflogaeth yn cynnwys gwerth:

- unrhyw dalebau, **ac**
- unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gyda cherdyn credyd neu docyn credyd,

rydych chi (neu eich teulu neu eich cartref) yn ei gael oherwydd eich cyflogaeth. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi ffigwr i chi ar gyfer y gwerth. Os ydych am wirio'r ffigurau neu eu gweithio allan eich hun, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR201: Vouchers, credit cards and tokens.* Mae hon yn cynnwys mwy o wybodaeth ac yn dweud wrthych pa dalebau nad ydynt yn drethadwy.

Os defnyddioch y talebau neu'r cerdyn credyd i dalu unrhyw dreuliau yn eich swydd, nodwch ym mlwch 1.13 y gwerth cyn unrhyw ddidyniad a gwnewch gais am ddidyniad ar gyfer treuliau caniatáol yn y blwch priodol (1.32 i 1.35) ar ôl darllen y nodiadau ar y blychau hynny.

- Llety

**blwch 1.14** Nodwch ym mlwch 1.14 werth unrhyw lety y cewch chi (neu eich teulu neu eich cartref) oherwydd eich cyflogaeth. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi ffigwr i chi am hyn. Os ydych am ei wirio, neu os ydych am fwy o wybodaeth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR202: Living accommodation*. Mae'r Daflen Gymorth yn dweud wrthych hefyd pan fydd llety a ddarperir gan eich cyflogwr yn rhydd o dreth a sut i wneud cais am ddidyniad os caiff rhan o'r llety ei ddefnyddio at ddibenion busnes yn unig.

- Lwfans milltiroedd - eich car chi
  - eich beic chi

**blwch 1.15**

***Eich car chi***

Os yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi ar gyfer defnyddio eich car eich hun ar gyfer teithiau busnes, gall y swm a dderbyniwch fod yn fwy na swm y rhyddhad treth y gallwch wneud cais amdano. Mae'r swm ychwanegol yn elw trethadwy - nodwch hyn ym mlwch 1.15. Os bydd y swm a gewch yn llai na swm y rhyddhad treth, gellir nodi'r swm ychwanegol ym mlwch 1.32. Cynhwysir gwybodaeth am sut i gyfrifo swm y rhyddhad treth y gallwch ei wrthbwyso yn erbyn lwfans milltiroedd yn nhaflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*, ac yn y nodiadau ar flwch 1.32 ar dudalen EN7.

Efallai y bydd gan eich cyflogwr drefniant gyda'r Swyddfa Cyllid y Wlad o'r enw Cynllun Car Elw Sefydlog. Os felly, gall eich cyflogwr roi manylion y ffigwr elw i chi i'w nodi ym mlwch 1.15 **neu** fanylion am swm y lwfans milltiroedd a dalwyd i chi yn ystod y flwyddyn a nifer y milltiroedd busnes y gwnaed y taliadau ar eu cyfer. Mae mwy o wybodaeth am y cynlluniau hyn, ac am dreuliau car, yn nhaflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

***Eich beic chi***

Os bydd eich cyflogwr yn talu lwfans i chi am ddefnyddio eich beic chi ar gyfer teithiau busnes, efallai y bydd y swm a gewch yn fwy na swm y rhyddhad treth y gallwch wneud cais amdano. Mae'r swm ychwanegol yn elw trethadwy - adiwch hwn at unrhyw lwfans milltiroedd car ychwanegol gan roi'r canlyniad ym mlwch 1.15. Os bydd y swm a gewch yn llai na swm y rhyddhad treth, gellir ychwanegu'r swm ychwanegol at unrhyw ryddhad treth ychwanegol ar gyfer defnyddio eich car a'i roi ym mlwch 1.32. Gallwch ddefnyddio'r gyfradd milltiroedd beicio busnes newydd i gyfrifo swm y rhyddhad treth y gallwch ei osod yn erbyn lwfans milltiroedd. Mae'r nodyn ar gyfer blwch 1.32 ar dudalen EN7 yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud hyn a'r union ddull amgen o gyfrifo treuliau beicio busnes.

- Buddiannau car a thanwydd car

**blychau 1.16 a 1.17** Nodwch ym mlwch 1.16 gyfwerth arian y ceir sydd ar gael i chi (neu i aelodau o'ch teulu neu'ch cartref) at ddefnydd preifat. Dylai eich cyflogwr roi ffigwr i chi. Gwnewch yn siwr y caiff ei addasu i adlewyrchu milltiroedd busnes. Fe gewch y ffigwr hefyd er budd y tanwydd a ddarperir ar gyfer teithio preifat mewn car sydd ar gael i chi. Nodwch hyn yn mlwch 1.17.

Os ydych am wirio ffigurau eich cyflogwr, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth: IR203 Car benefits and car fuel benefits*.

Os ydych yn defnyddio eich car preifat eich hun ar gyfer teithio wrth gyflawni eich dyletswyddau neu i weithle dros dro y mae'n rhaid i chi ei fynychu er mwyn cyflawni eich dyletswyddau, gweler y nodiadau ar flychau 1.15 a 1.32.

Nodwch ym mlwch 1.22 fudd unrhyw yrrwr personol a ddarparwyd oherwydd eich cyflogaeth.

## • Faniau

**blwch 1.18** Nodwch ym mlwch 1.18 gyfanswm cyfwerth arian yr holl faniau a oedd ar gael i chi at ddefnydd preifat. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi manylion i chi. Os mai dim ond un fan oedd gennych ac os oedd ar gael i chi yn unig drwy'r flwyddyn, y cyfwerth arian yw:

- £500 os cafodd ei chofrestru gyntaf ar neu ar ôl 6 Ebrill 1996, **neu**
- £350 fel arall,

**wedi ei ostwng** yn y naill achos a'r llall gan unrhyw daliad y mae'n rhaid i chi ei wneud fel amod gallu ei defnyddio'n breifat.

Os cafodd y fan ei darparu gyntaf i chi yn unig ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn dreth, neu os peidiodd â chael ei darparu i chi yn unig cyn diwedd y flwyddyn dreth, caiff y tâl safonol ei ostwng yn gyfatebol. Er enghraifft, os mai chi yn unig oedd yn defnyddio'r fan am chwe mis olaf y flwyddyn, bydd eich bil treth am ei defnyddio yn seiliedig ar hanner y tâl safonol.

Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch am drethu fan a rennir gydag eraill, neu fwy o wybodaeth am drethu faniau cwmni yn gyffredinol, gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR136: Income Tax and company vans - a guide for employees and employers.*

## • Benthyciadau di-log a llog isel

**blwch 1.19** Nodwch ym mlwch 1.19 gyfwerth arian unrhyw fenthyciad di-log neu log isel. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi ffigwr i chi am hyn. Os ydych am wirio hyn, neu os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch am drethiant benthyciadau di-log a llog isel yn gyffredinol, gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR145: Low-interest loans provided by employers*. Bydd hon hefyd yn dweud wrthych sut i wneud cais am unrhyw ryddhad treth ym mlwch 15.2 neu 15.3 o'ch Ffurflen Dreth os yw'r benthyciad at bwrpas cymhwyso.

## • Yswiriant meddygol neu ddeintyddol preifat

**blwch 1.21** Nodwch ym mlwch 1.21 gyfanswm cyfwerth arian unrhyw yswiriant iechyd meddygol preifat neu yswiriant iechyd arall a gewch oherwydd eich cyflogaeth. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi manylion i chi. Yn gyffredinol bydd hwn yn golygu faint y costiodd y budd i'r person a ddarparodd y budd i chi (minws unrhyw swm a sicrhawyd i'r person hwnnw).

## • Buddiannau eraill

**blwch 1.22** Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi manylion unrhyw fudd arall i chi. (Y rhai y soniwyd amdanynt ym mlychau 1.12 i 1.21 yw'r rhai mwyaf cyffredin). Nodwch ym mlwch 1.22 gyfanswm cyfwerth arian unrhyw fuddiannau nas cynhwyswyd rywle arall.

Os yw eich cyflogwr wedi gwneud taliadau ar eich rhan i gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, neu os ydych wedi derbyn taliadau gan gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, peidiwch â nodi'r rhain ym mlwch 1.22. Gweler y nodiadau ar flychau 1.24 i 1.29 ar dudalen EN6.

Er mwyn eich helpu i bennu cyfanswm ar gyfer blwch 1.22, rhestrir rhai o'r buddiannau mwyaf cyffredin yn y Daflen Waith yn y golofn nesaf.

### *Cyfwerth arian buddiannau eraill*

Pennir cyfwerth arian mewn sawl ffordd, yn ôl y math o fudd.

**Asedion (heblaw tir, cerbydau modur, faniau a ffonau symudol) a ddarperir at ddefnydd preifat.** Pan fydd yr ased wedi bod ar gael drwy'r flwyddyn, bydd y cyfwerth arian fel arfer yn seiliedig ar:

- 20% o'i werth ar yr farchnad pan gafodd ei ddefnyddio gyntaf i ddarparu budd, **ynghyd â**
- treuliau (heblaw cost ei gaffael) a dalwyd mewn perthynas ag ef na fyddai wedi cael eu talu oni bai am ddarpariaeth y budd.

Ond os yw'r cyfanswm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un gweithiwr, bydd y cyfwerth arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r cyfanswm. Caiff y cyfwerth arian ei ostwng gan unrhyw swm a sicrhawyd i'r darparwr yn gyfnewid am y budd. Am fwy o wybodaeth, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth.

**Treth incwm a dalwyd ond nas didynnwyd** (ar gyfer cyfarwyddwyr yn unig). Y budd yw swm y dreth a dalwyd.

Pob budd arall. Y cyfwerth arian yn gyffredinol fydd yr hyn a gostiodd y budd i'r person a ddarparodd y budd (minws unrhyw swm a sicrhawyd i'r person hwnnw). Ond os yw'r swm yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd i fwy nag un gweithiwr, bydd y cyfwerth arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran gywir o'r swm cyfan. Am fwy o wybodaeth gweler llyfryn 480, Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

### *Rhai buddiannau cyfranddaliadau*

Caiff rhai buddiannau o ran cyfranddaliadau neu opsiynau cyfranddaliadau eu dangos ar eich P11D: er enghraifft, os yw eich cyflogwr wedi eich galluogi i werthu cyfranddaliadau am fwy na'u gwerth ar y farchnad. Nodwch y swm trethadwy ym mlwch 1.22.

Os na chaiff y buddiannau cyfranddaliadau eu dangos ar eich P11D, neu os cânt eu dangos drwy gyfrwng tic yn unig, efallai y bydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6 o'ch Canllaw i Ffurflenni Treth a gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi o'r Tudalennau os bydd eu hangen arnoch.

### *Taflen Waith ar gyfer blwch 1.22*

| | | |
|---|---|---|
| • Taliadau treuliau a buddiannau adleoli cymhwysol (gweler isod) | | £ |
| • Gwasanaethau a gyflenwyd | | £ |
| • Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat | | £ |
| • Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol | | £ |
| • Treth Incwm a dalwyd (ond nas didynnwyd) (cyfarwyddwyr yn unig) | | £ |
| • Lleoedd a ddarparwyd mewn meithrinfa (mewn rhai amgylchiadau **nid** yw'r budd hwn yn drethadwy - gweler llyfryn 480) | | £ |
| • Cymorth addysgol a ddarparwyd (mewn rhai amgylchiadau **nid** yw'r budd hwn yn drethadwy - gweler llyfryn 480) | | £ |
| • Pob budd arall | | £ |
| **Cyfanswm** | **A** | £ |

**Copïwch y ffigwr ym mlwch A i flwch 1.22 yn eich Tudalennau Cyflogaeth.**

### *Pecynnau adleoli*

Pan fyddwch yn symud tŷ bydd unrhyw daliadau a dderbyniwch gan eich cyflogwr, neu unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i chi gan eich cyflogwr, yn rhan o'ch enillion trethadwy. Fodd bynnag, os byddwch yn symud tŷ ar gyfer eich swydd ac yn bodloni rhai amodau, bydd £8,000 cyntaf unrhyw help a gewch yn rhydd o dreth.

Wrth gwblhau'r Tudalennau Cyflogaeth, cofiwch:

- mae'r terfyn £8,000 yn gymwys i symud tŷ yn gyffredinol ac **nid** yw'n derfyn ar gyfer pob blwyddyn dreth, **ac**
- mae'n ofynnol i'ch cyflogwr ddweud wrth Gyllid y Wlad ynglŷn â swm ychwanegol unrhyw dreuliau adleoli a buddiannau dros y terfyn £8,000.

Dylai eich cyflogwr roi manylion i chi o'r swm i'w gynnwys yn eich ffigwr ym mlwch 1.22. Mae gwybodaeth fanylach am becynnau adleoli yn nhaflen *IR134: Income Tax and relocation packages*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

- Taliadau treuliau a dderbyniwyd a thaliadau mantoli

**blwch 1.23** Dylech nodi ym mlwch 1.23 **gyfanswm** y taliadau neu'r ad-daliadau a wnaed i chi ac unrhyw daliadau mantoli.

### *Taliadau treuliau a dderbyniwyd*

Dylai eich cyflogwr roi manylion i chi. Gweler y nodiadau ar flychau 1.32 i 1.35 er mwyn darganfod a allwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer pob un neu unrhyw rai. **Os oes gan eich cyflogwr oddefeb ar gyfer 1999-2000** peidiwch â nodi treuliau a gwmpaswyd ganddo naill ai ym mlwch 1.23 neu ym mlychau 1.32 i 1.35.

Mae taliadau treuliau yn disgyn i dri maes:

- **Taliadau teithio a chynhaliaeth**. Nodwch y symiau a dderbynioch ar gyfer prisiau teithio, gwestai, prydau bwyd ac ati, gan gynnwys teithio rhwng eich cartref a'ch lle gwaith arferol. Peidiwch â chynnwys,
  - taliadau neu ad-daliadau treuliau mewn cysylltiad â **cheir neu faniau cwmni** (er enghraifft, lwfans milltiroedd ar gyfer milltiroedd busnes nad yw'n gwneud mwy na chwmpasu cost y tanwydd a ddefnyddiwyd ar deithiau busnes), **neu**
  - treuliau ar gyfer teithio mewn **car/ceir nas darparwyd gan eich cyflogwr** (gweler y nodyn ar flwch 1.15 ar dudalen EN4).
- **Adloniant.** Nodwch gyfanswm yr holl symiau a dalwyd i chi, **neu** er eich lles, ar gyfer adloniant yn unig. Dylech gynnwys,
  - pob swm a ad-dalwyd
  - unrhyw lwfansau swm a dalgrynnwyd
  - lwfansau adloniant penodol
  - unrhyw symiau a dalwyd i drydydd partïon.
- **Lwfans(au) treuliau cyffredinol.** Nodwch swm y lwfans(au).

Os hoffech fwy o wybodaeth am dreuliau, gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi o lyfryn 480, *Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth.*

### *Taliadau mantoli*

Os ydych wedi gwerthu ased rydych wedi gwneud cais am lwfansau cyfalaf amdano, nodwch unrhyw dâl mantoli ym mlwch 1.23. Os bydd angen manylion arnoch, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders.*

### *Taflen Waith ar gyfer blwch 1.23*

| | | |
|---|---|---|
| • Taliadau teithio a chynhaliaeth | £ | |
| • Adloniant | £ | |
| • Lwfans treuliau cyffredinol ar gyfer teithiau busnes | £ | |
| • Treuliau adleoli anghymwysol (y rhai nas cynhwyswyd ym mlwch 1.22) | £ | |
| • Treuliau eraill | £ | |
| • Taliadau mantoli | £ | |
| **Cyfanswm** | **A** £ | |

**Copïwch y ffigwr ym mlwch A i flwch 1.23 yn eich Tudalennau Cyflogaeth.**

## *Cyfandaliadau a thaliadau iawndal neu fuddiannau gan gynnwys taliadau a buddiannau o'r fath gan gyn gyflogwr*

**blychau 1.24 i 1.29** Mae rheolau gwahanol yn gymwys i fathau gwahanol o'r taliadau neu'r buddiannau hyn, felly mae'n bwysig cymhwyso'r rheolau cywir. Os mai'r cyfan rydych am ei nodi yma yw taliad colli gwaith y caniataodd eich cyflogwr eithriad o dreth yn ei erbyn hyd at £30,000, gwnewch hyn drwy nodi:

- swm y taliad *minws* yr eithriad ym mlwch 1.29, **a**
- swm yr eithriad ym mlwch 1.24

Er enghraifft, os oedd eich taliad colli gwaith yn £7,500 byddai'n cael ei gwmpasu gan eithriad felly gadewch flwch 1.29 yn wag a nodwch £7,500 ym mlwch 1.24. Dim ond cofnod ym mlwch 1.29 ydyw a ddefnyddir yn y cyfrifiad treth. Ond os oedd y taliad yn £40,000, nodwch £10,000 ym mlwch 1.29 (£40,000 minws yr uchafswm eithriad o £30,000) a £30,000 ym mlwch 1.24.

Peidiwch ag anghofio cwblhau blwch 1.30, ond gadewch hwn yn wag os ydych eisoes wedi nodi'r dreth a ddidynnwyd o'r taliad (os o gwbl) ym mlwch 1.11.

Ond mewn amgylchiadau eraill o unrhyw fath, mae'n rhaid i chi gwblhau Taflen Gymorth IR204: Lump sums and compensation payments, sydd ar gael o'r Llinell Archebu, cyn cwblhau'r blychau hyn. Yn arbennig dylech gwblhau'r Daflen Gymorth os:

- roedd yr hyn a gawsoch yn cynnwys eitemau megis ôl-gyflog, cyflog gwyliau, taliadau yn lle rhybudd, **neu**
- roedd eitemau anariannol yn rhan o'r setliad, **neu**
- mae'n cynnwys unrhyw eithriad heblaw'r eithriad cyffredinol o £30,000, **neu**
- mae'n cynnwys iawndal heblaw ar gyfer colli gwaith, neu
- gwneir rhagor o daliadau neu fuddiannau ar ôl 5 Ebrill 2000 o ganlyniad i derfynu'r un gyflogaeth, **neu**
- rydych wedi cael symiau eraill wrth derfynu cyflogaeth gan yr un cyflogwr neu gan gyflogwr arall sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth honno ar unrhyw adeg, **neu**
- cawsoch gyfandaliad gan gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, **neu**
- cyfrannodd eich cyflogwr i gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd.

**blwch 1.30** Nodwch y dreth a ddidynnwyd o gyfandaliadau a thaliadau iawndal.

## *Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DG yn y flwyddyn a ddaeth i ben 2000*

Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau Cyflogaeth. Gweler y nodiadau ar dudalen 6, Cwestiwn 1 yn y Canllaw Ffurflenni Treth a thudalen NRN8 o'r Nodiadau ar Di-breswyl ac ati.

**blwch 1.31** Defnyddiwch *Daflen Gymorth IR211: Employment - residence and domicile issues* er mwyn gweithio allan y ffigwr i'w roi ym mlwch 1.31:

- os ydych wedi cwblhau'r Tudalennau Di-breswyl er mwyn gwneud cais am driniaeth ddi-breswyl neu ddi-breswylfan ar gyfer y flwyddyn dreth 1999-2000, neu driniaeth flwyddyn ranedig ar gyfer y flwyddyn honno (os nad oeddech yn preswylio am ran o'r flwyddyn), **neu**
- os gwnaethoch gais o'r fath mewn blwyddyn flaenorol, ac rydych wedi cynnwys incwm a enillwyd yn y flwyddyn honno yn y Tudalennau Cyflogaeth, **neu**
- os ydych wedi cynnwys incwm sy'n berthnasol i flwyddyn ddiweddarach ac os credwch y byddwch yn gwneud cais am driniaeth ddi-breswyl neu ddi-breswylfan ar gyfer y flwyddyn ddiweddarach honno, **neu**
- os derbynioch incwm mewn gwlad dramor na allech ei ddwyn i'r DG oherwydd rheolaethau cyfnewid neu brinder arian tramor yn y wlad honno.

Bydd y Daflen Gymorth yn eich helpu i weithio allan y rhan honno o'ch incwm a'ch derbynebion nad yw yn agored i Dreth Incwm yn y DG yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000. Fodd bynnag, gallai rhwymedigaeth godi, mewn blynyddoedd cynharach neu ddiweddarach, ar gyfer y cyfan neu ran o'r swm hwnnw. Mae hefyd yn bosibl y gallech fod yn agored i dreth incwm mewn gwlad arall am y cyfan neu ran o'r swm hwn. Gweler hefyd y nodiadau ar Ddidyniad Enillion Tramor ar dudalen EN8.

## *Treuliau a dalwyd gennych wrth gyflawni eich swydd*

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau ar gyfer gwneud cais am:

- costau teithio a chostau prydau bwyd a llety perthnasol yr oedd yn rhaid i chi eu talu wrth wneud eich swydd neu a dalasoch wrth deithio i weithle dros dro yr oedd yn rhaid i chi ei fynychu i gyflawni eich dyletswyddau, **a**

- treuliau **angenrheidiol** eraill a dalwyd gennych wrth wneud eich gwaith **yn unig**.

**Os oes gan eich cyflogwr oddefeb ar gyfer 1999-2000 ni ddylech gynnwys yn eich cais unrhyw dreuliau rydych wedi eu talu os:**

- gallwch wneud cais amdanynt yn ôl oddi wrth eich cyflogwr, **a**
- cwmpesir y treuliau gan oddefeb. Gweler yr adran o dan y pennawd 'Buddiannau a threuliau' ar dudalen EN3.

Fodd bynnag, os ydych wedi talu gwariant caniatáol sy'n fwy na'r swm a gwmpesir gan yr oddefeb gallech wneud cais am ddidyniad ar gyfer y swm ychwanegol.

Os na wyddoch a oes gan eich cyflogwr oddefeb ai peidio, gofynnwch am fanylion.

- Costau teithio a chynhaliaeth

**blwch 1.32** Gallwch wneud cais am dreuliau teithio ar deithiau busnes - p'un ai yn y DG neu dramor - yn ogystal â chostau perthnasol llety a phrydau bwyd.

### *Teithiau busnes*

Mae yna ddau fath o daith sy'n gymwys fel teithiau busnes:

- taith sy'n cynnwys teithio o un lle gwaith i un arall ar gyfer yr un gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys teithio rhwng gweithle parhaol a gweithle dros dro.
- taith a wnewch i weithle neu oddi yno y mae'n rhaid i chi ei fynychu er mwyn cyflawni dyletswyddau eich cyflogaeth - ond nid os yw'r daith yn gymudo cyffredin neu'n daith breifat.

**Cymudo cyffredin** yw teithio rhwng eich cartref, neu unrhyw le arall rydych yn ei fynychu am resymau personol, a gweithle parhaol. Nid oes hawl gennych i ddidyniad ar gyfer cost cymudo cyffredin - neu am daith sydd at ddibenion ymarferol yn gymudo cyffredin i raddau helaeth- ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Os na fyddwch eisoes wedi gwneud cais am deithiau rhwng eich cartref a gweithle parhaol dylech gysylltu â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad cyn gwneud cais yma. Mae'r nodiadau isod yn egluro beth yw gweithle parhaol.

Mae taith am resymau ymarferol yn gymudo cyffredin i raddau helaeth os yw yn fras i'r un cyfeiriad ac yn fras yr un hyd â thaith cymudo cyffredin. Os oes amheuaeth genych a yw taith yn gymudo cyffredin i raddau helaeth - gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

**Taith breifat** yw unrhyw daith lle mae'r daith at ddiben preifat yn hytrach na busnes. Ni fydd hawl gennych i ddidyniad am gost teithio preifat.

**Gweithle parhaol** yw gweithle rydych yn ei fynychu'n rheolaidd nad yw'n weithle parhaol ac sy'n cynnwys lle sy'n ffurfio'r man sefydlog lle y cyflawnwch eich dyletswyddau neu lle y lleolir y tasgau dyddiol rydych yn eu cyflawni. Nid oes gan rai cyflogeion weithle parhaol ac efallai y bydd gan rai fwy nag un. Nid yw mynychu ail weithle yn achlysurol yn debygol o olygu bod gennych ddau weithle parhaol.

**Gweithle dros dro** yw gweithle a fynychir gennych i gyflawni tasg gyfyngedig o ran hyd neu at ryw ddiben dros dro arall. Bydd hawl gennych i ddidyniad am gost y teithio rhwng eich cartref a gweithle dros dro y mae'n rhaid i chi ei fynychu er mwyn cyflawni eich dyletswyddau.

Ond ni fydd gweithle yn weithle dros dro os byddwch yn ei fynychu neu os bydd disgwyl i chi ei fynychu i gyflawni rhan sylweddol o'ch dyletswyddau yno:

- am fwy na 24 mis, neu
- am lai na 24 mis os mai hwnnw yw cyfnod cyfan eich cyflogaeth.

Gall teithio fod yn rhan annatod o'ch swydd. Er enghraifft, os ydych yn deithiwr gwerthu heb weithle parhaol sydd fel arfer yn ymweld â sawl lle gwaith mewn diwrnod gwaith, bydd gennych hawl i ddidyniad am dreuliau teithio a chynhaliaeth cysylltiedig a delir wrth wneud eich swydd o'r adeg y gadewch eich cartref. Ond os diffinnir eich dyletswyddau drwy gyfeirio at ardal ddaearyddol ac rydych yn byw y tu allan i'r ardal honno, ni fydd hawl gennych i ddidyniad am gost y teithio rhwng eich cartref a ffin yr ardal honno. Os ydych yn ansicr a yw hyn yn gymwys i chi, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

Os ydych yn talu treuliau teithiau busnes pan fyddwch yn teithio mewn car neu ar feic ac os yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi, gweler y nodyn ar flwch 1.15 ar dudalen EN4.

Os ydych yn talu treuliau teithiau busnes pan fyddwch yn teithio mewn car, ac os nad yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi, gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer y costau moduro caniatáol. Mae dwy ffordd o wneud hyn:

- y sail union
- y sail symlach.

### *Costau moduro - y sail union*

Y treuliau moduro caniatáol yw cost tanwydd a ddefnyddir ar deithiau busnes ynghyd â chyfran busnes y costau moduro eraill fel gwaith cynnal a chadw, yswiriant a threth cerbydau (treth y ffordd). Cyfrifir y gyfran fusnes drwy gyfeirio at y busnes a chyfanswm y milltiroedd a deithiwyd yn y car yn ystod y flwyddyn. Gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf.

Os ydych am weithio allan eich treuliau moduro caniatáol a lwfansau cyfalaf, gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith.*

Bydd angen i chi gadw cofnod o'ch holl dreuliau moduro er mwyn ategu'r cais hwn. Bydd angen i chi hefyd gadw manylion y milltiroedd busnes a phreifat a deithioch yn y car yn ystod y flwyddyn.

### *Costau moduro - y sail symlach*

Os byddai'n well gennych, gallwch gyfrifo eich costau moduro caniatáol drwy ddefnyddio'r tabl canlynol:

| Maint injan y car | Hyd at 4,000 o filltiroedd busnes (ceiniog y filltir) | Dros 4,000 o filltiroedd busnes (ceiniog y filltir) |
|---|---|---|
| Hyd at 1,000cc | 28 | 17 |
| 1,001 - 1,500cc | 35 | 20 |
| 1,501 - 2,000cc | 45 | 25 |
| Dros 2,000cc | 63 | 36 |

**Enghraifft**
Fe deithioch 6,000 o filltiroedd busnes. Mae gan eich car injan 1,600cc.

Eich costau caniatáol yw:

| | |
|---|---|
| 4,000 o filltiroedd ar 45 ceiniog | £1,800 |
| 2,000 o filltiroedd ar 25 ceiniog | £500 |
| **Cyfanswm** | £2,300 |

Ni allwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gyfer eich car os defnyddiwch y dull hwn. Mae hyn am fod y ffigurau yn y tabl eisoes yn caniatáu ar gyfer dibrisiant cyfalaf.

Os dewiswch y dull hwn, dim ond cofnod o gyfanswm eich milltiroedd busnes yn y car yn ystod y flwyddyn y bydd yn rhaid i chi ei gadw, a nodyn o faint injan y car.

### *Costau beicio*

Os defnyddiwch eich beic ar gyfer teithiau sy'n gymwys fel teithiau busnes, ac nid yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi, gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer costau beicio caniatáol. Gallwch wneud hyn drwy wneud cais am 12c y filltir am bob milltir a deithiwch ar daith busnes, fel y diffinnir uchod.

Fel arall, gallwch wneud cais am eich costau beicio gwirioneddol ar deithiau busnes, gan gynnwys cyfran o unrhyw waith atgyweirio neu rannau newydd o lwfansau cyfalaf ar gyfer rhywfaint o gost y beic. Er mwyn ategu cais am gostau gwirioneddol bydd angen i chi gadw derbynebion ar gyfer eich treuliau i gyd.

### *Gwneud cais am ryddhad*

Mae rheolau arbennig os ydych yn preswylio ac fel arfer yn preswylio yn y DG ond yn gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol dramor, neu os ydych yn weithiwr sydd â phreswylfan y tu allan i'r DG sy'n dod i weithio yn y DG. Os bydd angen gwybodaeth arnoch am y rhain, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad.

Os derbynioch daliadau teithio a chynhaliaeth fel rhan o becyn adleoli, gweler y nodiadau ar flwch 1.22.

Unwaith y byddwch wedi nodi'r treuliau rydych am wneud cais amdanynt, adiwch ynghyd:

- ar holl gostau teithio caniatáol a dalwyd. Os derbynioch lwfans milltiroedd ar gyfer cerbyd neu feic, cofiwch gynnwys dim ond swm ychwanegol unrhyw dreuliau caniatáol dros eich lwfans - gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*, sy'n cynnwys taflen waith i weithio allan y swm ychwanegol ar gyfer ceir
- y costau llety/prydau bwyd a dalwyd ar deithiau busnes
- y treuliau busnes eraill sy'n berthnasol i deithiau busnes. Byddai'r rhain yn cynnwys er enghraifft galwadau ffôn busnes a chostau ffacs/llungopïo ac ati. Ond nid ydynt yn cynnwys cost eitemau personol fel galwadau ffôn i'ch cartref, papurau newydd dyddiol a golch personol.

**Yna:**

- nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.32, **ac**
- os yw blwch 1.32 **yn cynnwys** treuliau teithio rhwng eich cartref a gweithle parhaol, ticiwch flwch 1.36.

Cofiwch: fel gyda'r holl geisiadau am dreuliau, dylech gadw unrhyw gofnod o symiau a dalwyd ac unrhyw dderbynebion/talebau sydd gennych rhag ofn y bydd eich Swyddfa Cyllid y Wlad yn gofyn amdanynt. Peidiwch â'u hanfon gyda'ch Ffurflen Dreth.

#### • Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau

**blwch 1.33** Didyniadau sefydlog yw symiau o dreuliau y cytunwyd arnynt rhwng Cyllid y Wlad a'r undebau llafur perthnasol neu gyrff eraill i gwmpasu cost cynnal a chadw neu adnewyddu offer neu ddillad gwaith arbennig. Nodwch y rhain ym mlwch 1.33. Os nad ydych am wneud cais am ddidyniad sefydlog, dylech adael blwch 1.33 yn wag a rhoi cyfanswm y treuliau rydych wedi eu gwario ar yr eitemau hyn a'u cynnwys fel rhan o'ch 'treuliau eraill' ym mlwch 1.35.

Os oedd eich côd yn cynnwys addasiad ar gyfer treuliau o flwyddyn gynharach, cysylltwch â'r Swyddfa Cyllid y Wlad.

#### • Ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau

**blwch 1.34** Efallai y gallai fod hawl gennych i gael didyniad ar gyfer:

- rhai ffioedd y mae'n rhaid i chi eu talu i gyflawni eich proffesiwn, **neu**
- tanysgrifiadau blynyddol i gyrff proffesiynol a gymeradwywyd gan Gyllid y Wlad ac sy'n berthnasol i'ch gwaith.

Os oes hawl gennych i ddidyniad, gall y corff proffesiynol rydych yn talu'r ffi neu'r tanysgrifiad iddo ddweud wrthych faint all gael ei ddidynnu. Nodwch y swm ym mlwch 1.34.

#### • Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf

**blwch 1.35** Dim ond y treuliau angenrheidiol a dalwch wrth gyflawni eich gwaith y gallwch wneud cais amdanynt. Treuliau angenrheidiol yw'r rheini y byddai pob person sy'n gwneud eich swydd yn gorfod eu talu. Mae'n rhaid i'r treuliau gael eu talu wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd mewn gwirionedd. Felly er enghraifft, nid yw treuliau sy'n eich rhoi mewn sefyllfa i gyflawni eich swydd, yn hytrach na rhai sy'n cael eu gwario wrth berfformio'r swydd mewn gwirionedd, yn oddefol.

Os oedd eich côd yn cynnwys addasiad ar gyfer treuliau o flwyddyn gynharach, cysylltwch â'r Swyddfa Cyllid y Wlad.

### *Treuliau adloniant – rheolau arbennig ar gyfer cyflogeion busnesau masnach*

Os ydych yn gweithio i fusnes masnach ni allwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer treuliau adloniant busnes oni bai:

- bod eich cyflogwr wedi rhoi tic yn y blwch yn erbyn 'adloniant' ar ffurflen P11D (mae 'X' yn y blwch yn erbyn 'adloniant' yn golygu na allwch wneud cais am ddidyniad yn eich hunan asesiad ar gyfer gwariant ar adloniant busnes), **a**
- cafodd y treuliau adloniant busnes rydych yn gwneud cais amdanynt eu gwario o reidrwydd wrth gyflawni dyletswyddau eich swydd.

Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch am dreuliau adloniant gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi o lyfryn 480, *Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*.

### *Treuliau eraill*

Cwmpaswyd y rhan fwyaf o'r treuliau y gallwch wneud cais amdanynt ym mlychau 1.32 i 1.34. Yn achlysurol iawn, gallech wneud cais am dreuliau eraill hefyd. Efallai eich bod eisoes wedi cytuno ar geisiadau blaenorol gyda Chyllid y Wlad ar eitemau eraill yn y gorffennol. Os felly, dylech gyfrifo swm y treuliau goddefol ar y sail gytûn.

Efallai y gallech wneud cais am ryddhad ar gyfer treuliau a dalwyd gennych chi neu eich cyflogwr ar gyfer:

- eich yswirio yn erbyn ceisiadau sy'n ymwneud â gweithredoedd gwirioneddol anghyfiawn neu anghyfiawn honedig a gyflawnwyd gennych fel gweithiwr, **neu**
- costau nas yswiriwyd sy'n codi o weithredoedd gwirioneddol neu honedig o'r fath.

Os na wyddoch beth i wneud cais amdano, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth cyn cwblhau blwch 1.35.

Cofiwch gynnwys:

- unrhyw dreuliau ar gyfer cynnal a chadw offer a dillad arbennig nad ydynt yn sefydlog (hynny yw, nas cynhwyswyd ym mlwch 1.33)
- cyfran fusnes unrhyw fudd rydych wedi ei gynnwys yn llawn ym mlwch 1.22.

### *Lwfansau cyfalaf*

Efallai y gallai fod hawl gennych i lwfansau cyfalaf ar gyfer cost cyfarpar neu beiriannau a ddefnyddiwch yn eich cyflogaeth. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders* am fanylion. Gallwch gael lwfansau cyfalaf hefyd ar gyfer car a ddefnyddiwch ar gyfer y gwaith. Gallwch wneud hyn drwy:

- gyfrifo eich treuliau moduro caniatáol drwy ddefnyddio'r dull 'symlach' a ddisgrifiwyd yn y nodiadau ar flwch 1.32 (mae'r dull hwn yn cynnwys swm ar gyfer lwfansau cyfalaf), **neu**
- gwneud cais ar y sail gymwys (ar gyfer ceir gweler taflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith; ar gyfer beiciau, gweler Taflen Gymorth IR206: Lwfansau Cyfalaf ar gyfer cyflogeion a deiliaid swydd).*

Ni allwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar eich car na'ch beic os derbyniwch lwfans milltiroedd moduro ac os ymdriniwyd ag unrhyw elw yn y modd a ddisgrifiwyd yn y nodiadau ar flwch 1.15. Mae hyn am fod y ffigurau a ddefnyddir yn y cyfrifiadau hynny yn cynnwys swm ar gyfer lwfansau cyfalaf.

#### • Teithio rhwng eich cartref a gweithle parhaol

**blwch 1.36** Ticiwch flwch 1.36 os yw blwch 1.32 yn cynnwys treuliau teithio rhwng eich cartref a gweithle parhaol.

### ■ *Didyniad Enillion Tramor*

**blwch 1.37** Dilewyd y Didyniad Enillion Tramor o 17 Mawrth 1988 ymlaen ar gyfer pob cyflogai heblaw morwyr. O'r dyddiad hwnnw dim ond morwyr sy'n gallu gwneud cais am y Didyniad. Diffinnir morwr fel 'rhywun sy'n cyflawni dyletswyddau eu cyflogaeth ar long'. Yr ystyr gyffredin sydd i 'long', fodd bynnag ni chaiff 'safleoedd alltraeth' a ddefnyddir yn y diwydiant olew a nwy alltraeth eu hystyried fel 'llongau'. Nid yw gweithwyr ar rigiau symudol yn 'forwyr' ac ni allant wneud cais am y Didyniad.

Os credwch fod hyn yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth IR2055.

### ■ *Treth tramor na wnaed cais am ryddhad credyd treth amdani*

**blwch 1.38** Er mwyn gwneud cais am ryddhad credyd treth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Tramor, a gadewch flwch 1.38 yn wag.

Os nad ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth, nodwch ym mlwch 1.38 swm unrhyw dreth dramor rydych wedi ei thalu ar eich incwm cyflogaeth.

*Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.*